



**cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future**

**DATGANIAD I'R WASG
Dyddiad: 1 Rhagfyr 2010**

Tai Ceredigion yn gweithio'n galed i helpu tenantiaid i beidio â mynd i ddyled dros y Nadolig

Mae Tai Ceredigion yn gweithio'n galed i helpu tenantiaid nid yn unig i gynilo arian ar gyfer y dyfodol, ond i sicrhau hefyd nad ydynt yn mynd i drafferthion ariannol yn ystod cyfnod y Nadolig.

Mae pawb yn gwybod bod y Nadolig yn adeg anodd o'r flwyddyn i gyfrifon banc teuluoedd - bydd y plant am gael pob tegan neu ddyfais newydd dan haul, a bydd biliau bwyd yn uwch. Mae Tai Ceredigion am sicrhau bod ei denantiaid yn cael y cymorth a'r cyngor ariannol y mae arnynt eu hangen.

Meddai Steve Jones, Prif Weithredwr Tai Ceredigion, "Mae'r Nadolig yn adeg anodd i bawb yn ariannol, yn enwedig yn awr gan ein bod yn dioddef y dirwasgiad gwaethaf ers 20 mlynedd. Mae llawer o'n tenantiaid yn ddi-waith neu ar incwm isel, a chyda'r newidiadau mewn budd-daliadau lles ar y gorwel, byddai'n hawdd i bobl gladdu eu pen yn y tywod a gadael i ddyledion dyfu. Rydym am helpu ein tenantiaid i reoli eu harian a thalu eu biliau pwysig, megis rhent, yn brydlon. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau megis Undeb Credyd CredCer ac asiantaethau dyledion lleol fel y gallwn roi cyngor o safon i'n tenantiaid. Y cyfan y mae angen iddynt ei wneud yw cysylltu â ni i ofyn am help."

Mae Tai Ceredigion hyd yn oed wedi cynhyrchu rhestr o ddeg o gynghorion ynghylch arbed ynni ar gyfer y gaeaf i helpu tenantiaid i arbed arian a chadw'n gynnes. Bydd y rhestr yn cael ei dosbarthu gyda'r llythyr newyddion nesaf i denantiaid. Mae'r cynghorion yn cynnwys troi'r thermostat i lawr 1°C yn unig, a allai leihau biliau gwres hyd at 10% ac arbed oddeutu £50 y flwyddyn.

Os oes angen cyngor ar unrhyw rai o denantiaid Tai Ceredigion ynghylch sut i reoli eu harian, dylent gysylltu â Lynda Mason George, Ymgynghorydd Cynhwysiant Cymunedol Tai Ceredigion, ar 0345 6067654.